O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 2483 (Cy. 268)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A4232 (Cyfnewidfa Croes Cwrlwys i Drosbont Drope Road, Caerdydd) (Terfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *18 Hydref 2011* |
| *Yn dod i rym* | *31 Hydref 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A4232) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Hydref 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4232 (Cyfnewidfa Croes Cwrlwys i Drosbont Drope Road, Caerdydd) (Terfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 31 Hydref 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road"*) yw'r darnau o'r gefnffordd yn Ninas a Sir Caerdydd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2.

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 18 Hydref 2011

*G R Morgan*
**G MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 295 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y drosbont ogledd-orllewinol yng Nghroes Cwrlwys i bwynt 230 o fetrau i'r gogledd trosbont Drope Road.

### ATODLEN 2

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gogledd y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Croes Cwrlwys.